*This document is available in English*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

**Cynhelir cyfarfod o'r PWYLLGOR ARCHWILIO DDYDD LLUN 24 IONAWR 2022 am 9.30 o'r gloch y bore dros Zoom.**

Yn gywir

Gareth Owens
Clerc

## AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o Ddiddordebau**

3. **Rhybudd o Faterion Brys**

   Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972

4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 18 Hydref 2021**

5. **Materion yn codi**

6. **Strategaeth Gyfalaf 2022/23 – 2024/25**

7. **Diweddariad gan yr Adran Archwilio Mewnol**

8. **Crynodeb Archwilio Blynyddol**

9. **Rheoliadau Ariannol**

10. **Materion Brys**

    Ystyried unrhyw eitem y penderfyna'r Cadeirydd sy'n fater brys (o dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) y nodwyd ei gynnwys o dan eitem 3 uchod.

**<u>RHAN II</u>**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) o Deddf Llywodraeth Leol, 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitem(au) busnes canlynol am ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu iddynt.

Dim.

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd drwy Zoom ar 18 Hydref 2021. Dechreuodd y cyfarfod am 9.30am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| W O Thomas (Cadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| B Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| B Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| S Lloyd-Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |

HEFYD YN BRESENNOL:

H MacArthur (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol); S Morris (Prif Swyddog Cynorthwyol); M Georgiou (Dirprwy Swyddog Monitro); G Williams (Gwasanaethau Cyfrifyddiaeth a'r Trysorlys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); K V Williams (Adran Archwilio. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); M Edwards (Archwilio Cymru); Jodie Williams (Archwilio Cymru); H Howard (Pennaeth Cyllid); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

1 YMDDIHEURIADAU:

| | |
|---|---|
| B Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| K Finch | Trysorydd |

2 DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Dim.

3 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 26 GORFFENNAF 2021

3.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2021 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

3.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir.**

4 MATERION YN CODI

4.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5 DATGANIAD ARCHWILIEDIG O GYFRIFON A DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2020/21

5.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur Ddatganiad archwiliedig o Gyfrifon 2020/21, a oedd yn cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, i'r Aelodau. Roedd yr adroddiad hefyd yn cyflwyno canfyddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru, a oedd yn cadarnhau barn archwilio ddiamod.

5.2 Nodwyd mai tasg y Pwyllgor Archwilio oedd sicrhau bod craffu effeithiol yn digwydd ar yr adroddiadau cyllid, a gwneud argymhellion i'r Panel Gweithredol ar sail ei ganfyddiadau.

5.3 Cyflwynwyd y cyfrifon drafft i'w harchwilio ar 28 Mai 2021. Roedd y rhain yn cadarnhau £38.55m o wariant net. Nid yw'r sefyllfa archwiliedig derfynol wedi newid. Roedd Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod yn dangos cydymffurfiaeth â Fframwaith CIPFA/Solace, sef *Delivering Good Governance in Local Government* (2016). Roedd yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cadarnhau barn archwilio ddiamod.

5.4 O ran yr amserlenni, nodwyd bod Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon archwiliedig a'r datganiad llywodraethu blynyddol gael eu cymeradwyo fel arfer gan yr Aelodau erbyn 31 Gorffennaf. Fodd bynnag, oherwydd y pandemig, mae'r amserlenni wedi cael eu hymestyn hyd at 30 Tachwedd 2021.

5.5 Rhoddodd M Edwards o Archwilio Cymru fanylion y gwaith a wnaed gan yr archwilwyr ar y datganiad o gyfrifon. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at nifer o gamddatganiadau a welwyd ac a oedd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr. Roedd dau gamddatganiad a nodwyd gan yr archwilwyr heb gael eu cywiro, a chadarnhaodd yr archwilydd nad oedd y rhain yn sylweddol ond fod angen tynnu sylw'r Aelodau atynt oherwydd eu bod yn berthnasol i gyfrifoldebau'r Aelodau am y broses adrodd ariannol. Nododd yr Aelodau y crynodeb o gywiriadau a wnaed, gan gydnabod pwysigrwydd dysgu o'r rhain ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol.

5.6 Roedd y Cyng. Lloyd-Williams eisiau i gofnod gael ei wneud o werthfawrogiad y Pwyllgor o waith y swyddogion yn paratoi

cyfrifon mor fanwl, ac roedd yn cydnabod yr ymdrechion wrth gydweithio ag Archwilio Cymru er gwaethaf y pwysau a'r cyfyngiadau oherwydd Covid.

5.7 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r sefyllfa alldro archwiliedig a'r perfformiad fel y maent wedi'u disgrifio yn Natganiad o Gyfrifon 2020/21;**
**(ii) nodi'r trefniadau llywodraethu a'r cynllun gweithredu fel y maent wedi'u hamlinellu yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21;**
**(iii) nodi adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy'n cadarnhau barn archwilio ddiamod;**
**(iv) nodi'r llythyr cynrychiolaeth a gynigir; a**
**(v) cadarnhau'r argymhelliad fod y Panel Gweithredol yn cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon archwiliedig terfynol 2020/21 yn ei gyfarfod ar 18 Hydref 2021.**

6 RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODUS

6.1 Rhoddodd G Williams wybodaeth i'r Aelodau am Strategaeth Cyfalaf a Rheoli'r Trysorlys 2021/22, a oedd yn cynnwys diwygiadau i'r Dangosyddion Darbodus.

6.2 Cafodd Strategaeth Cyfalaf a Rheoli'r Trysorlys 2021/22 ei chymeradwyo gan yr Awdurdod ar 15 Mawrth 2021. Nodwyd bod y Dangosyddion Darbodus a amcangyfrifid ar gyfer 2021/22 wedi cael eu diwygio i adlewyrchu'r rhagolwg o'r gwariant cyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

6.3 **PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfaoedd benthyca a buddsoddi cyfredol, a chymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus diwygiedig fel y maent yn yr adroddiad.**

7 GOSOD CYLLIDEB 2022/2023

7.1 Roedd y PSTC MacArthur wedi cyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth am broses y gyllideb, y rhagdybiaethau cynllunio a'r amserlenni ar gyfer gosod cyllideb refeniw'r Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer 2022/23.

7.2 Atgoffwyd yr Aelodau fod rhaid i'r Awdurdod osod cyllideb refeniw 2022/23 yn ei gyfarfod ar 20 Rhagfyr 2021. Mae'r gwaith paratoi sydd ei angen i sefydlu'r gyllideb sylfaenol wedi cychwyn, ac mae hynny'n cynnwys adolygu'r lefelau gwariant cyfredol, y rhagdybiaethau cynllunio allweddol a'r risgiau.

7.3 Roedd yr Aelodau'n canmol yr adroddiad. Dywedodd un Aelod ei bod yn bwysig edrych ar y risgiau a'r ansicrwydd mewn ffordd ragweithiol a bod angen i'r Awdurdod symud ymlaen yn ddiogel a chadarn.

7.4 Rhoddodd y PSTC MacArthur wybod i'r Aelodau ei bod wedi hi wedi cwrdd â Chyfarwyddwyr Cyllid yr holl awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru ac wedi esbonio beth yw proses y gyllideb yn yr Awdurdod, gan gynnwys yr angen i ddiwygio'r gyllideb er mwyn delio â'r heriau a wynebir. Atgoffwyd yr Aelodau o'r heriau gan y Prif Swyddog Tân yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ym mis Medi 2021. Caiff y rhain eu symud ymlaen yn y gweithdy i'r aelodau ar 2 Tachwedd, a'u cynnwys yn y gyllideb a gyflwynir i'r aelodau ym mis Rhagfyr 2021.

7.5 Teimlai'r Aelodau y dylai'r Awdurdod a'r Gwasanaeth fod yn rhoi llawer mwy o gyhoeddusrwydd i'r gwaith rhagorol a wneir, er mwyn i'r cyhoedd sylweddoli faint o waith y mae'r Gwasanaeth yn ei wneud ar ei ben ei hun ac o fewn gwahanol bartneriaethau.

7.6 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddir i osod y gyllideb refeniw ar gyfer 2022/23; a**
**(ii) nodi'r cynnig i geisio cael yr Awdurdod i gymeradwyo'r gyllideb refeniw 2022/23 yn ei gyfarfod ar 20 Rhagfyr 2021.**

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **24 Ionawr 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur – Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Graham Williams (01745 535286)** |
| Pwnc | **Strategaeth Gyfalaf 2022/23 – 2024/25** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r Strategaeth Gyfalaf (y Strategaeth) ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2025 i'r aelodau.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r Strategaeth yn darparu golwg gyffredinol ar y gwariant cyfalaf, cyllid cyfalaf a gweithgareddau rheoli'r trysorlys sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol er mwyn cyflawni amcanion Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod). Mae'r Strategaeth hefyd yn darparu sicrwydd ynghylch sut y caiff risg cysylltiol ei reoli, ynghyd â'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol ar gyfer y dyfodol. Mae'n rhoi crynodeb o'r prosesau a'r gweithdrefnau cyffredinol sy'n llywodraethu'r gwaith o brynu ac ariannu asedau er mwyn gwella dealltwriaeth yr aelodau o'r meysydd hyn, sydd weithiau'n dechnegol. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys Dangosyddion Darbodus a Strategaethau'r Trysorlys sydd angen cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub.

3 Datblygwyd y Strategaeth yn dilyn cymeradwyo'r cyllidebau refeniw a chyfalaf ar gyfer 2022/23, a oedd yn cadarnhau cyllideb refeniw net o £39.41m ynghyd â £2.916m arall o wariant cyfalaf wedi'i gymeradwyo.

**ARGYMHELLION**

4 Gofynnir i'r Aelodau:
(i) nodi'r Strategaeth Gyfalaf gyffredinol; a
(ii) argymell bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei gymeradwyo.

**CEFNDIR**

5 Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cael y dasg o sicrhau bod craffu effeithiol yn digwydd ar strategaeth rheoli'r trysorlys a'r polisïau, ac o wneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub yn seiliedig ar ei ganfyddiadau.

**GWYBODAETH**

6 Dylai'r Pwyllgor nodi bod y strategaethau yn yr adroddiad wedi cael eu paratoi gan ddefnyddio canllawiau gan Arlingclose, sef ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys a ddefnyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac sydd â chyfrifoldeb am swyddogaeth Trysorlys y Gwasanaeth Tân.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gan yr adroddiad hwn gysylltiad ag amcanion llesiant tymor hir yr Awdurdod, drwy sicrhau bod y broses o brynu asedau i gefnogi gwasanaethau rheng flaen yn broses ddarbodus, fforddiadwy a chynaliadwy. Mae'r Strategaeth Gyfalaf wedi'i dylunio i sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn digwydd yn y seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Mae cysylltiad rhwng y Strategaeth Gyfalaf â'r gwaith o osod y cyllidebau refeniw a chyfalaf, sy'n ystyried fforddiadwyedd tymor hir |
| Cyfreithiol | Mae'r fframwaith rheoleiddio ar gael yn yr atodiadau i'r adroddiad. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae'r adroddiadau'n nodi'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau benthyca a buddsoddi. |

## STRATEGAETH GYFALAF

Mae'r ddogfen hon yn nodi Strategaeth Gyfalaf (Strategaeth) Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2022/23 hyd at 2024/25.

Mae'r adroddiad yn darparu golwg gyffredinol ar lefel uchel o'r gwariant cyfalaf, cyllid cyfalaf a gweithgarwch rheoli'r trysorlys.

### 1.0 Cynlluniau Gwariant Cyfalaf

Gwariant cyfalaf yw pan fo'r Awdurdod yn gwario arian ar asedau a fydd yn cael eu defnyddio am fwy na blwyddyn. Bydd hyn yn cynnwys symiau sy'n cael eu gwario ar brynu asedau megis eiddo, cerbydau neu gyfarpar, ond gallai hefyd gynnwys gwariant ar uwchraddio asedau sydd ganddo eisoes. Fel arfer, mae'r asedau gwaelodol yn eiddo i'r Awdurdod ond gellid hefyd wneud gwariant cyfalaf ar asedau sy'n eiddo i gyrff eraill neu sy'n ymwneud â benthyciadau neu grantiau a roddir i gyrff eraill i'w galluogi nhw i brynu asedau.

Mae'r Awdurdod yn dilyn Cod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol, sy'n cynnwys rhywfaint o ddisgresiwn cyfyngedig ynghylch beth yw gwariant cyfalaf. Er enghraifft, nid yw asedau sy'n costio llai £5,000 yn cael eu cyfalafu, ac maent yn cael eu codi'n uniongyrchol ar y cyfrif refeniw yn y flwyddyn pryd digwyddodd y gwariant. Mae Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod yn cynnwys y rheolaethau allweddol, ac maent yn cadarnhau bod rhaid i bob gwariant ddigwydd yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Contractau'r Awdurdod.

Mae manylion polisi'r Awdurdod ar gyfalafu a thrin asedau ar gyfer cyfrifyddu ar gael fel atodiad i'r Datganiad o Gyfrifon dan 'Polisïau Datganiad Cyfrifyddu'. Mae'r cyfrifon yn cael eu cyhoeddi bob blwyddyn ar wefan y Gwasanaeth Tân, sef [www.gwastan-gogcymru.org.uk](http://www.gwastan-gogcymru.org.uk).

Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yr Awdurdod yn cydnabod bod angen buddsoddi'n barhaus mewn adeiladau, cerbydau, asedau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a chyfarpar i sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu cyflawni'r amcanion a nodwyd ganddo. Mae trefniadau llywodraethu ar gael i sicrhau bod pob gwariant yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau corfforaethol sydd yng Nghynllun Gwella a Llesiant yr Awdurdod.

Mae'r gwariant cyfalaf isod yn rhan o Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yr Awdurdod, a chafodd ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Rhagfyr 2021. Ers ei gymeradwyo, gwnaethpwyd rhagor o waith mewn perthynas â chynllun cyfalaf 2023/24 a 202/25 er mwyn sicrhau bod y cynllun yn parhau i fod yn fforddiadwy. Mae manylion y gwariant cyfalaf a ddiwygiwyd ar gael isod.

| | Gwir-ioneddol 2020/21 £'000 | Diwyg-iedig 2021/22 £'000 | Amcan-gyfrif 2022/23 £'000 | Amcan-gyfrif 2023/24 £'000 | Amcan-gyfrif 2024/25 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant cyfalaf | 0 | 1,027 | 2,916 | 3,620 | 3,630 |

## 2.0 Angen i Fenthyca: Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR)

Y Gofyniad Cyllido Cyfalaf yw cyfanswm y gwariant cyfalaf hanesyddol sy'n weddill heb ei dalu naill ai o'r adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn y bôn, mae'n fesuriad o faint o ddyled sydd gan yr Awdurdod, a thrwy hynny ei angen gwaelodol i fenthyca. Bydd hyn yn cynyddu pan fo rhagor o wariant yn cael ei ariannu drwy fenthyca, ac mae'n gostwng pan gaiff dyled ei had-dalu drwy ddefnyddio derbyniadau cyfalaf a'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP).

Fel rhan o'r broses ar gyfer sefydlu'r cynlluniau gwariant cyfalaf, mae'n bwysig fod yr Awdurdod yn ystyried sut bydd gwariant o'r fath yn cael ei ariannu a pha mor fforddiadwy yw'r penderfyniadau hyn dros oes yr ased. Gellir ariannu gwariant cyfalaf o ffynonellau mewnol megis cyllidebau refeniw, derbyniadau cyfalaf neu gronfeydd defnyddiadwy, neu o ffynonellau allanol megis benthyca, prydlesu neu grantiau.

Dim ond ffynhonnell dros dro o gyllid yw benthyciadau, a rhaid eu had-dalu yn ystod oes yr ased. Codir tâl ar gyfrifon refeniw'r Awdurdod ymhob blwyddyn, a'r enw ar hyn yw darpariaeth isafswm refeniw (MRP).

Pan nad oes angen ased cyfalaf mwyach, mae'n bosibl ei werthu er mwyn gallu gwario'r elw, sef yr hyn a elwir yn dderbyniadau cyfalaf, ar asedau newydd neu i ad-dalu dyled.

Mae Gofyniad Cyllido Cyfalaf yr Awdurdod wedi'i nodi yn y tabl isod:

| | Gwir-ioneddol 2020/21 £'000 | Diwyg-iedig 2021/22 £'000 | Amcan-gyfrif 2022/23 £'000 | Amcan-gyfrif 2023/24 £'000 | Amcan-gyfrif 2024/25 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| CFR Agoriadol | 31,744 | 29,385 | 28,411 | 29,389 | 30,943 |
| CFR Clo | 29,385 | 28,411 | 29,389 | 30,943 | 32,469 |
| Symudiad yn y CFR | (2,359) | (974) | 978 | 1,554 | 1,526 |

Mae'r symudiad yn y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) wedi'i gynrychioli gan:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Yr angen cyllido net ar gyfer y flwyddyn (Gwariant cyfalaf) | 0 | 1,027 | 2,916 | 3,621 | 3,630 |
| Llai MRP/VRP | (2,105) | (2,001) | (1,938) | (2,067) | (2,104) |
| Addasiad Blwyddyn Flaenorol | (254) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiad yn y CFR | (2,359) | (974) | 978 | 1,554 | 1,526 |

O flwyddyn ariannol 2022/23 ymlaen, mae'r modd y rhoddir cyfrif am brydlesau yn newid o dan IFRS16. Bydd hyn o bosibl yn arwain at gategoreiddio rhywfaint o wariant ar brydlesau fel gwariant cyfalaf. Os bydd hyn yn cael effaith ar ffigyrau'r CFR isod, caiff dangosyddion diwygiedig eu cyflwyno'n ddiweddarach.

## 3.0 Y Goblygiadau i'r Gyllideb Refeniw yn sgil Penderfyniadau Cyfalaf

Nid yw gwariant cyfalaf yn cael ei godi'n uniongyrchol ar y gyllideb refeniw. Yn hytrach, bydd ffi flynyddol yn cael ei chodi ar y cyfrif refeniw am ddefnyddio'r asedau cyfalaf. Mae'r ffi hwn i'r refeniw yn adlewyrchu ad-dalu cyfran o'r benthyciad a gafwyd i brynu'r asedau cyfalaf gwaelodol. Yr enw ar y ffi i'r refeniw yw darpariaeth isafswm refeniw (MRP), ac mae'n rhan o'r ffi cyllid cyfalaf. Mae'r ffi cyllid cyfalaf hefyd yn cynnwys cost llog am fenthyca, ond gallai hefyd gael ei wrthbwyso gan unrhyw incwm buddsoddi a dderbynnir.

Nid yw Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn nodi sut dylid cyfrifo'r ddarpariaeth isafswm refeniw (MRP), ond rhaid i'r Awdurdod ystyried cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2018. Nod y cyfarwyddyd yn gyffredinol yw sicrhau bod y ffioedd a godir ar gyfrif refeniw'r Awdurdod dros oes yr ased yn adlewyrchu'r costau gwaelodol a'r ffioedd cyllid. Felly, bydd cost lawn y penderfyniadau cyfalaf yn cael eu hadlewyrchu yn sefyllfa refeniw'r Awdurdod.

Mae polisi'r Awdurdod ynghylch yr MRP wedi'i nodi isod. Mae'n gyson â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ac mae'n cael ei adlewyrchu yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a gymeradwywyd ym mis Tachwedd 2021:

- Caiff yr MRP ei gyfrifo drwy godi tâl am y gwariant dros yr oes ddefnyddiol a ddisgwylir gan yr ased, fel y nodir ym Mholisïau Cyfrifyddu Ariannol yr Awdurdod. Telir mewn rhandaliadau cyfartal, a byddant yn cychwyn yn y flwyddyn pryd daeth yr ased yn weithredol.

Isod, rhoddir amlinelliad o effaith refeniw'r cynlluniau buddsoddi cyfalaf:

| | Gwir-ioneddol 2020/21 (£'000) | Rhagolwg 2021/22 (£'000) | Amcangyfrif 2022/23 (£'000) | Amcangyfrif 2023/24 (£'000) | Amcangyfrif 2024/25 (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|
| Sefyllfa'r Isafswm Refeniw | 2,104 | 2,000 | 1,938 | 2,067 | 2,104 |
| Costau cyllido | 380 | 324 | 325 | 375 | 375 |
| **Cyfanswm y ffi i'r refeniw** | **2,484** | **2,324** | **2,263** | **2,442** | **2,479** |

## 4.0 Pa mor fforddiadwy a chynaliadwy yw'r Cynlluniau Cyfalaf

Oherwydd natur hirdymor yr asedau cyfalaf, bydd y penderfyniadau a wneir am wariant cyfalaf yn arwain at ganlyniad i'r refeniw am nifer o flynyddoedd. Mae union nifer y blynyddoedd yn dibynnu ar y math o ased, ond o ran adeiladau, gallai hyn ymestyn i 50 mlynedd. Felly, rhaid i'r broses o gynllunio cyfalaf roi ystyriaeth ddyledus i ba mor fforddiadwy a chynaliadwy yn y tymor hir yw'r gwariant cyfalaf a'r penderfyniadau cyllido.

Mae'r Rheoliadau Ariannol yn cynnwys rheolaethau i sicrhau bod pob cynnig yn destun craffu priodol a chymeradwyaeth. Hefyd, mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu dangosyddion fforddiadwyedd i roi dealltwriaeth o effaith cynlluniau buddsoddi cyfalaf ar sefyllfa refeniw cyffredinol yr Awdurdod.

Y mesur craidd yw'r costau cyllido, a hynny yn union ac yn amcangyfrifiedig, fel canran o holl gostau refeniw'r Awdurdod. Mae hyn yn canfod tueddiad yng nghost cyfalaf (benthyca a chostau rhwymedigaethau hirdymor eraill) o gymharu â'r llifoedd refeniw a ddisgwylir o fewn y cynlluniau ariannol tymor canolig.

| | Gwirioneddol 2020/21 % | Diwygiedig 2021/22 % | Amcangyfrif 2022/23 % | Amcangyfrif 2023/24 % | Amcangyfrif 2024/25 % |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymhareb | 6.9% | 6.3% | 5.7% | 6.0% | 5.9% |

## 5.0 Strategaeth Rheoli'r Trysorlys

Mae trefniadau'r Awdurdod ar gyfer rheoli'r trysorlys yn rhan allweddol o'r strategaeth gyfalaf, ac maent yn adlewyrchu'r gwaith o reoli llif arian parod ar gyfer gofynion gwariant refeniw a gwariant cyfalaf.

Mae gweithgareddau trysorlys yr Awdurdod yn cael eu rheoleiddio'n llym gan ofynion statudol a chodau ymarfer proffesiynol (Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys). Mae'r Cod yn mynnu bod Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn cael ei hadrodd i'r Awdurdod bob blwyddyn. Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn nodi sut bydd yr Awdurdod yn bodloni'r gofynion ariannu a bennwyd yn y cynlluniau gwariant cyfalaf.

Un o ofynion allweddol y strategaeth yw esbonio'r risgiau, a'r dulliau o reoli'r risgiau, sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r trysorlys, ynghyd â nodi awydd yr Awdurdod am risg, a'i fesurau rheoli.

## 6.0 Strategaeth Fenthyca 2022/23

Y prif amcanion wrth fenthyca yw cael cyfraddau isel, lleihau risgiau a chynnal hyblygrwydd. Yn aml, mae'r amcanion hyn yn gwrthdaro â'i gilydd, a rhaid cael cydbwysedd rhwng benthyciadau byrdymor rhad (sydd ar gael am tua 0.15% ar hyn o bryd) a benthyciadau cyfradd sefydlog hirdymor lle mae'r gost yn y dyfodol yn hysbys ond yn uwch (sef 1.4% am 5 mlynedd i 1.85% am 20 mlynedd ar hyn o bryd).

Bydd y Trysorydd, dan bwerau dirprwyedig, yn cymryd y ffurf fwyaf priodol o fenthyca gan ddibynnu ar y cyfraddau llog sy'n gyffredin ar y pryd, a hynny gan ystyried unrhyw risgiau ac yn unol â'r rheolaethau canlynol.

Yn ôl y cyfarwyddyd statudol, dylai dyled aros yn is na'r gofyniad cyllido cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Fel y gwelir o'r tabl isod, mae'r Awdurdod y disgwyl cydymffurfio â hyn yn y tymor canolig.

Ar hyn o bryd, mae’r Awdurdod yn cynnal sefyllfa tan-fenthyca. Ystyr hyn yw nad yw’r angen i fenthyca cyfalaf (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf) wedi cael ei ariannu’n llwyr â dyled benthyca gan fod arian i gefnogi cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod, ei falansau a’i lif arian wedi’i ddefnyddio fel mesur dros dro. Mae’r strategaeth hon wedi bod yn ddarbodus gan fod enillion buddsoddiadau wedi bod yn isel.

| Lefel y Ddyled | Diwygiedig 2021/22 £000 | Amcangyfrif 2022/23 £000 | Amcangyfrif 2023/24 £000 | Amcangyfrif 2024/25 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Gofyniad Cyllido Cyfalaf | 29,385 | 29,389 | 30,943 | 32,469 |
| Benthyciadau | 22,918 | 23,895 | 25,449 | 26,975 |

**Terfyn Benthyca Fforddiadwy**

Mae’n bwysig i’r Awdurdod osod terfynau i sicrhau bod y benthyciadau’n cael eu rheoli’n ofalus, a gwneir hyn drwy ddau ddangosydd allweddol, sef:

- **Y Ffin Weithredol** - mae’r dangosydd hwn yn seiliedig ar y ddyled allanol debygol yn ystod y flwyddyn; nid terfyn mohono. Gallai dyled allanol wirioneddol amrywio o gwmpas y ffin hon am gyfnodau byr yn ystod y flwyddyn. Dylai weithredu fel dangosydd monitro i sicrhau nad eir yn uwch na’r terfyn awdurdodedig.

- **Y Terfyn Awdurdodedig** - terfyn na chaniateir dyled allanol yn uwch nag o, ac mae angen i’r terfyn hwn gael ei osod neu ei ddiwygio gan yr Awdurdod. Mae’n adlewyrchu lefel y ddyled allanol y gellid ei fforddio yn y tymor hir, er nad yw hynny’n rhywbeth a ddymunir, ac nad yw’n gynaliadwy yn y tymor hir. Dyma’r terfyn statudol a bennir dan adran 3 (1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

Mae'r terfynau canlynol yn bodoli ar gyfer y cyfnodau 2022/2025:

| | Diwygiedig 2021/22 £’000 | Amcan-gyfrif 2022/23 £’000 | Amcan-gyfrif 2023/24 £’000 | Amcan-gyfrif 2024/25 £’000 |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Ffin Weithredol | 29,385 | 29,389 | 30,943 | 32,469 |
| Terfyn Awdurdodedig | 31,385 | 31,389 | 32,943 | 34,469 |

**Cefndir Economaidd**

Bydd yr effaith barhaus y mae’r coronafeirws yn cael ei chael ar y DU, ynghyd â chwyddiant uwch, cyfraddau llog uwch, a sefyllfa fasnach y wlad ar ôl Brexit, yn dylanwadu’n fawr ar strategaeth rheoli’r trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2022/23.

Roedd Banc Lloegr wedi cynyddu Cyfradd y Banc i 0.25% yn Rhagfyr 2021. Mae Arlingclose, sef ymgynghorydd rheoli’r trysorlys i’r Awdurdod, yn rhagweld y bydd Cyfradd y Banc yn parhau i godi yn Chwarter 1 y calendr 2022 (codi i 0.50%) er mwyn goresgyn pwysau chwyddiannol a’r awydd a ganfyddir gan Fanc Lloegr i symud oddi wrth lefelau argyfyngus o gyfraddau llog.

Disgwylir i arenillion aros ar y lefelau cyfredol yn fras dros y tymor canolig, gyda disgwyl i'r arenillion gilt 5, 10 ac 20 mlynedd fod tua 0.65%, 0.90%, ac 1.15% yn eu trefn, ar gyfartaledd.

**7.0 Strategaeth Fuddsoddi**

Pan fo balansau arian parod yn uwch na'r all-lifoedd arian parod disgwyliedig, mae'r Awdurdod yn gallu buddsoddi arian dros ben. Mae'r buddsoddiadau hyn yn rhai byrdymor yn eu natur ac maent yn ganlyniad i fusnes craidd yr Awdurdod. Felly, dylai'r holl benderfyniadau buddsoddi geisio lleihau risg yn hytrach na chael yr enillion mwyaf ac mae hylifedd yn flaenoriaeth.

Mae strategaeth fuddsoddi'r Awdurdod yn bennaf yn ceisio diogelu'r prifswm a fuddsoddir, a sicrhau ei fod ar gael yn amserol pan fo'i angen. Ystyriaeth eilaidd yw enillion buddsoddiadau.

Dyma'r buddsoddiadau cyfredol:

| | **Diwygiedig 2021/22 £'000** | **Amcan-gyfrifedig 2022/23 £'000** | **Amcan-gyfrifedig 2023/24 £'000** | **Amcan-gyfrifedig 2024/25 £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y buddsoddiadau | **825** | **0** | **0** | **0** |

Bydd y Trysorydd yn cadw rhestr o'r holl sefydliadau ariannol y gall y gwasanaeth eu defnyddio ar gyfer buddsoddi arian. Bydd y rhestr o bartïon i gontract yn ddibynnol ar y meini prawf canlynol:

| **Sefydliad** | **Disgrifiad** | **Terfyn** |
|---|---|---|
| **Banciau** | Holl fanciau'r DU, a'u his-gwmnïau, sydd â sgoriau da (Fitch neu gyfwerth). Ar hyn o bryd, mae hyn wedi'i ddiffinio fel hirdymor (BBB) | £5m |
| **Llywodraeth Ganolog** | Swyddfa Rheoli Dyledion | Diderfyn |
| **Cronfeydd Marchnadoedd Arian** | Dim ond ar y cyd â chyngor gan Arlingclose. | £1m y gronfa |
| **Awdurdodau Lleol** | Pob un heblaw'r rhai sy'n agored i gyfyngu ar dreth gyngor a phraeseptau o dan Ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. | £2m |
| **Cymdeithasau Adeiladu** | Cymdeithasau adeiladu sydd â sgôr (fel ar gyfer y sector banciau). | £2m |
| **Cymdeithasu Adeiladau (Asedau £1bn)** | Cymdeithasau adeiladu sydd heb sgôr, ond sydd ag asedau'n werth £1biliwn neu fwy. | £2m/ 9 months |

## 8.0 Trefniadau Llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu ar gyfer y strategaeth gyfalaf yn cael ei thanategu gan nifer o godau ymarfer, fel yr amlinellir yn y ddogfen hon. Caiff y Dangosyddion Darbodus eu monitro a'u hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn ariannol. Tynnir sylw at amrywiadau, ac ymchwilir iddynt.

Y Trysorydd sydd â rheolaeth a throsolwg, ac mae'r penderfyniadau o ddydd i ddydd wedi'u dirprwyo i'r swyddogion. Caiff y cynlluniau gwariant cyfalaf eu rheoli gan y Gwasanaeth, ac mae'r trefniadau cyllido a rheoli'r trysorlys wedi'u dirprwyo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel rhan o gontract Gwasanaethau Ariannol.

Caiff y swyddogion a'r staff eu cefnogi drwy benodi ymgynghorwyr proffesiynol, sef Arlingclose Limited, sy'n darparu gwasanaethau proffesiynol ar gyfer Rheoli Trysorlys, felly mae modd sicrhau rheolaeth briodol ar risgiau.

## 9.0 Dangosyddion Darbodus

Yn ôl Deddf Llywodraeth Leol 2003 mae'n ofynnol i'r Awdurdod fabwysiadu Cod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf. Prif amcan y Cod Darbodus yw sicrhau bod y cynlluniau buddsoddi cyfalaf sydd gan yr Awdurdod yn rhai fforddiadwy, darbodus a chynaliadwy.

I gynorthwyo'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, mae'r Cod Darbodus yn mynnu bod rhaid mabwysiadu dangosyddion sydd naill ai'n crynhoi'r gweithgarwch cyfalaf a ddisgwylir, neu'n cyflwyno terfynau ar y gweithgarwch hwnnw. Mae'r dangosyddion hyn yn adlewyrchu canlyniad systemau arfarnu cyfalaf yr Awdurdod, ac mae'n sicrhau bod rheolaethau'n bodoli, gan gynnwys ymwybyddiaeth briodol o risgiau, a rheolaeth briodol o'r rheini.

Mae'r tabl isod yn cadarnhau'r dangosyddion ar gyfer y 3 blynedd nesaf. Y dangosyddion hyn sy'n darparu'r fframwaith rheoli ar gyfer yr Awdurdod.

| | | Rhagolwg 2021/22 (£'000) | Cyllideb 2022/23 (£'000) | Cyllideb 2023/24 (£'000) | Cyllideb 2024/25 (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant Cyfalaf | 1,027 | 2,916 | 3,620 | 3,630 |
| 2 | Gofyniad Cyllido Cyfalaf | 29,385 | 29,389 | 30,943 | 32,469 |
| 3 | Terfyn Awdurdodedig | 31,385 | 31,389 | 32,943 | 34,469 |
| 4 | Ffin Weithredol | 29,385 | 29,389 | 30,943 | 32,469 |
| 5 | Cymhareb rhwng y Costau Cyllido a'r Gwariant Net | 6.3% | 5.7% | 6.0% | 5.9% |
| 6 | Buddsoddiadau | 825 | 0 | 0 | 0 |
| 7 | Benthyciadau ar gyfraddau Llog Sefydlog fel % o'r Holl Fenthyciadau | Isafswm 65%<br>Uchafswm 100% | | | |
| 8 | Benthyciadau ar gyfradd sefydlog fel % o'r Holl Fenthyciadau | Isafswm 0%<br>Uchafswm 35% | | | |
| 9 | Strwythur Aeddfedu'r Benthyciadau ar Gyfradd Sefydlog | | | | |
| | | **Terfyn Uchaf** | | **Terfyn Isaf** | |
| | O dan 12 mis | 60% | | 0% | |
| | 12 mis i 2 flynedd | 45% | | 0% | |
| | 2 flynedd i 5 mlynedd | 45% | | 0% | |
| | 5 mlynedd i 10 mlynedd | 75% | | 0% | |
| | 10 mlynedd a mwy | 100% | | 0% | |

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021




Dyma ein crynodeb archwilio ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021. Mae ein crynodeb archwilio'n rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar ein gwefan.

## Ynglŷn â'r Awdurdod Tân ac Achub

### Rhai o'r gwasanaethau y mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn eu darparu



**Ffeithiau allweddol**

Mae Awdurdodau Tân ac Achub (ATA) yn cynnwys aelodau etholedig enwebedig, sy'n cynrychioli'r awdurdodau lleol ledled ardal yr ATA ar y cyfan.
Mae ATA Gogledd Cymru'n cynnwys 28 o gynghorwyr sy'n cynrychioli eu pleidiau gwleidyddol a'u hawdurdodau cyfansoddol fel a ganlyn:

- Cyngor Sir Ynys Môn [3]
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy [5]
- Cyngor Sir Ddinbych [4]
- Cyngor Sir y Fflint [6]
- Cyngor Gwynedd [5]
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam [5]

Gwariodd yr ATA £34.6 miliwn ar ddarparu gwasanaethau (gan eithrio cost cyllid cyfalaf) yn ystod 2020-21 sy'n ostyngiad o 0.2% o'i gymharu â 2019-20[1].

[1] Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon 2020-21

**Ffeithiau allweddol**

O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2021, roedd gan yr Awdurdod £4.9 miliwn o gronfeydd ariannol wrth gefn defnyddiadwy. Mae hyn yn cyfateb i 14.2% o wariant blynyddol yr Awdurdod ar wasanaethau, yr isaf o'r 3 Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru.

Mae rhwymedigaeth statudol ar Awdurdodau Tân ac Achub dan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i gynnal Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n gallu ymdrin yn effeithiol â'r holl alwadau am gymorth os ceir tân ac achosion brys eraill.

Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb trosfwaol am bennu polisi ar Awdurdodau Tân ac Achub. Ar lefel leol, rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub ateb gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ogystal â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub, sy'n cael ei adolygu gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Daw'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer y tri ATA yng Nghymru trwy ardoll gan yr awdurdodau unedol lleol yn eu hardal. Mae'r cyfraniad yn seiliedig ar niferoedd y boblogaeth.

# Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

## Fe wnaethom gwblhau gwaith yn ystod 2020-21 i gyflawni'r dyletswyddau canlynol

- **Archwilio'r Cyfrifon**

  Bob blwyddyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod i wneud yn siŵr y rhoddir cyfrif priodol am arian cyhoeddus.

- **Gwella'n barhaus**

  Roedd rhaid i'r Awdurdod sefydlu trefniadau i wneud gwelliannau parhaus hefyd, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, a rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu yw'r Awdurdod wedi ateb y gofynion hyn.

- **Gwerth am arian**

  Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio pa un a yw'r Awdurdod wedi sefydlu trefniadau i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, a rhaid iddo fod wedi'i argyhoeddi ei fod wedi gwneud hyn.

- **Yr egwyddor datblygu cynaliadwy**

  Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

Rydym yn parhau i gydnabod y straen enfawr ar wasanaethau cyhoeddus ac i weithio mewn ffordd sy'n ceisio lleihau'r effaith ar ymateb cyrff cyhoeddus i COVID-19, gan ddal i gyflawni ein dyletswyddau statudol.

**I gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol rydym yn cwblhau prosiectau penodol, ond rydym hefyd yn dibynnu ar waith archwilio arall, a gwaith cyrff rheoleiddio. Rydym yn cymryd canfyddiadau ein gwaith archwilio i ystyriaeth wrth asesu pa un a yw'r Awdurdod wedi sefydlu trefniadau i sicrhau gwerth am arian. Caiff ein canfyddiadau a'n casgliadau eu crynhoi isod.**

# Yr hyn a ganfuom

## Archwiliad o Gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer 2020-21

Bob blwyddyn rydym yn archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod.

### Ar gyfer 2020-21:

- Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod bod datganiadau ariannol yr Awdurdod yn gywir a theg ar 22 Hydref 2021, cyn y terfyn amser statudol.
- Cafodd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif yr Awdurdod eu paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr Awdurdod ac â'n gwybodaeth ni am yr Awdurdod.
- Fe wnaethom gydnabod bod yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd da wrth wella ansawdd ei ddatganiadau ariannol mewn blynyddoedd blaenorol, a'i fod wedi gorfod ymateb i'r heriau yn sgil pandemig Covid-19 o ran ei drefniadau cau i lawr, ond roedd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio ar 28 Mai 2021 yn dal i gynnwys nifer fawr o wallau ac anghysonderau.
- Fe wnaed nifer o newidiadau i ddatganiadau ariannol yr Awdurdod a gododd o'n gwaith archwilio, gyda'r rhain yn cael eu dwyn i sylw'r Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol yn ein Hadroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ym mis Hydref 2021.
- Fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi'r dystysgrif sy'n cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon ar gyfer 2020-21 wedi cael ei gwblhau.

## Ein gwaith mewn ymateb i bandemig COVID-19

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, fe newidiom ni ddull a ffocws ein gwaith archwilio perfformiad mewn llywodraeth leol a chyrff eraill. Isod ceir crynodeb o rywfaint o'r gwaith yr ydym wedi'i wneud mewn ymateb i'r pandemig ar draws nifer o sectorau, y mae cryn dipyn ohono'n berthnasol i lywodraeth leol.

Fe gynhaliom ni brosiect i ategu ymdrechion y sector cyhoeddus trwy rannu gwersi a ddysgwyd trwy'r pandemig. Nod y prosiect yw ysgogi rhywfaint o feddwl, a chyfnewid ymarfer. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Ym mis Mawrth 2021, fe gyhoeddom ni adroddiad cenedlaethol a oedd yn nodi trosolwg o'r cynnydd hyd yma o ran Profi, Olrhain, Diogelu yng Nghymru. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaethom hefyd gyhoeddi rhai o arsylwadau'r Archwilydd Cyffredinol ar gaffael a chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol yn ystod pandemig COVID-19, ac yna adroddiad ar hynny ym mis Ebrill 2021. Ym mis Mehefin 2021, fe wnaethom hefyd gyhoeddi ein hadroddiad ar gyflwyno rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru.

## Gwella'n barhaus

Fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol ardystio ym mis Tachwedd 2021 bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol i gynllunio ar gyfer gwella ac adrodd ar wella a'i fod yn credu ei fod yn debygol o fod wedi ateb gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ystod 2020-21.

## Archwiliad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Cydnerthedd Corfforaethol yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Yn 2020-21 fe gynhaliom ni adolygiad o gydnerthedd corfforaethol yn yr Awdurdod i ddarparu sicrwydd ynghylch pa mor dda y mae'n ymdrin â'r heriau ariannol a'r heriau o ran capasiti y mae'n eu hwynebu. Roedd ein hadroddiad yn dod i'r casgliad bod yr Awdurdod, ar y cyfan, wedi dangos ei gydnerthedd byrdymor ond bod angen iddo wneud rhai penderfyniadau mawr i barhau i fod yn gydnerth yn y dyfodol.

## Astudiaethau llywodraeth leol

Yn ogystal â gwaith lleol ym mhob cyngor, bob blwyddyn rydym hefyd yn cynnal astudiaethau ar draws y sector llywodraeth leol i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian. Ers yr adroddiad gwella blynyddol diwethaf, rydym wedi cyhoeddi'r adroddiadau canlynol:

## Gwasanaethau dewisol (Ebrill 2021)

Mae pwysau ariannol wedi peri i gynghorau ostwng gwariant a thorri gwasanaethau, ond mae'r pandemig wedi dangos bod gwasanaethau llywodraeth leol yn hanfodol i gadw pobl yn ddiogel ac yn iach. Fe wnaethom ganolbwyntio ar sut y mae cynghorau'n diffinio gwasanaethau, y systemau a'r prosesau y maent wedi'u defnyddio i adolygu gwasanaethau a pha mor gadarn yw'r rhain. Mae'r galw am rai gwasanaethau hanfodol yn dal i gynyddu ac nid yw cynghorau'n hyderus y gallant barhau i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn wyneb y galw cynyddol a chymhleth hwn. Mae angen i gynghorau achub ar y cyfle i adnewyddu, ailgloriannu

ac ailosod yr hyn y maent yn ei wneud a dysgu o'r pandemig i greu dyfodol gwell. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Ebrill 2021.

## Adfywio canol trefi yng Nghymru (Medi 2021)

Rhwng 1950 a 1980, fe wnaeth awdurdodau lleol roi blaenoriaeth i adfywio canol trefi gan greu mannau adwerthu newydd a mwy. Fodd bynnag, mae dewisiadau polisi blaenorol, disgwyliadau newidiol defnyddwyr a datblygiadau technolegol bellach yn effeithio'n andwyol ar ganol sawl tref yng Nghymru. Ac mae'r pandemig wedi creu heriau i lywodraeth leol a'r Llywodraeth ganolog, gydag un siop ymhob saith ar strydoedd mawr Cymru bellach yn wag, er bod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi ac ysgogi buddsoddiadau gwerth £892.6 miliwn yn y saith mlynedd ddiwethaf. Nid oes gan awdurdodau lleol y capasiti i ymateb i'r sefyllfa hon ac nid ydynt wastad yn defnyddio'r pwerau sydd ganddynt i helpu i adfywio trefi. I gyflawni'r deilliannau lleol gorau, mae angen i bolisïau a threfniadau cydweithio gael eu halinio a'u hintegreiddio, ac mae angen i adnoddau gael eu blaenoriaethu ar ganol trefi. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Medi 2021.

## Gwaith sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2021-22

Fe wnaethom hefyd fwrw golwg ar yr heriau a chyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod. Gallai'r rhain gael effaith ar allu'r Awdurdod i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r modd y mae'n defnyddio'i adnoddau.

Y risg a'r mater mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu awdurdodau a'r sector cyhoeddus ehangach o hyd yn ystod 2021-22 yw pandemig COVID-19. Rydym wedi trefnu ein gwaith i ddarparu sicrwydd a her mewn ffordd sy'n helpu i gefnogi'r Awdurdod trwy'r cyfnod hwn. Mae ein gwaith ar gyfer 2021-22 yn cynnwys adolygiad o gynnydd yr Awdurdod tuag at ddod yn niwtral o ran carbon.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe’i penodir gan Ei Mawrhydi’r Frenhines. Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Senedd.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian mewn llywodraeth leol, yn asesu cydymffurfiaeth â’r gofynion sy’n weddill o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gall gynnal arolygiadau arbennig dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain, fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

*This document is available in English*

**Eitem ar yr Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **24 Ionawr 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur – Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard, Pennaeth yr Adran Gyllid** |
| Pwnc | **Rheoliadau Ariannol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r Rheoliadau Ariannol i gael eu hystyried gan Aelodau'r Pwyllgor Archwilio.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae Cyfansoddiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn nodi'r trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau ac yn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd. Mae'r Rheoliadau Ariannol wedi'u cynnwys o fewn y Cyfansoddiad, ac maent yn darparu'r fframwaith llywodraethu ar gyfer materion ariannol.

3 Mae'r Rheoliadau Ariannol (y Rheoliadau) wedi cael eu hadolygu a'u diwygio er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â Chod Rheolaeth Ariannol Cipfa.

**ARGYMHELLION**

4 Gofynnir i'r Aelodau:
(i) nodi'r Rheoliadau Ariannol arfaethedig; a
(ii) argymell bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn eu cymeradwyo.

**CEFNDIR**

5 Rhaid i'r Awdurdod wneud trefniadau priodol i ddangos bod:

- busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl ddeddfau a rheoliadau perthnasol;
- arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a bod cyfrif priodol amdano; a bod
- adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddarbodus, effeithlon ac effeithiol er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt er budd pobl yr ardal.

6 Mae Cod Rheolaeth Ariannol CIPFA yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i awdurdodau gael trefniadau ariannol cadarn, ac mae'n cadarnhau bod y rheoliadau ariannol yn ganolog i sicrhau hyn.

7 Felly, mae'r Rheoliadau hyn yn darparu'r fframwaith llywodraethu sy'n nodi sut mae'r Awdurdod yn rheoli ei arian ac yn tanategu'r holl benderfyniadau ariannol.

**GWYBODAETH**

8 Pwrpas cyffredinol y Rheoliadau hyn yw darparu trefniadau cadarn ar gyfer rheoli, cyfrifyddu a rheolaeth ariannol fewnol. Mae gweithredu'r Rheoliadau hyn yn hybu gwerth am arian a chydymffurfiaeth â rhwymedigaethau cyfreithiol ac ariannol yr Awdurdod.

9 Mae'r Rheoliadau arfaethedig wedi'u nodi yn Atodiad 1. Mae'r rhain wedi cael eu hadolygu a'u diwygio er mwyn sicrhau eu bod yn gyson ag amgylchedd gweithredu cyfredol yr Awdurdod a'u bod yn darparu mecanwaith cynhwysfawr ar gyfer rheoli risg ariannol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cysylltiad rhwng yr adroddiad hwn ac amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod, drwy sicrhau bod penderfyniadau ariannol yn gadarn, fforddiadwy a chynaliadwy. Mae'r Rheoliadau wedi'u dylunio i sicrhau bod digon o reolaethau mewnol a rheolaeth ariannol i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Mae'r Rheoliadau'n darparu'r fframwaith llywodraethu ariannol sy'n llywodraethu'r holl benderfyniadau ariannol. |
| Cyfreithiol | Mae cadw at y Rheoliadau hyn yn gymorth i gyflawni amcanion cyfreithiol yr Awdurdod. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae'r Rheoliadau'n mynd i'r afael â risgiau hysbys ac maent yn cynnwys y fframwaith ar gyfer dirprwyo penderfyniadau. |